

Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mehefin 14eg 2023

Presennol

Cyng. C.Dixon, S.Roberts, D.Morris, G.Hughes,S.Jones, G.Jones a D.Griffiths.

Ymddiheuriad Cyng C.Edwards.

Cofnodion Mai 2023.

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Materion yn codi.

Ffordd Cefndeuddwr- dim mwy o wybodaeth ar y mater yma.

Ffordd Ty Cerrig- Cynghorwr Sir heb dderbyn gwybodaeth/lluniau er mwyn mynd ar mater ymlaen.

Safle Maesgwm- mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth pellach fod yna ychydig o ddiddordeb wedi ei ddangos mewn datblygu cynlluniau busnes ar y safle ond hyd yma ychydig iawn o gynnydd sydd wedi bod yn y datblygiadau hyn.

Cyngorhydd Sir- Esboniodd Cyng Griffiths fod gan Gyngor Gwynedd sawl grant ar gael i berchnogion tai lleol, grwpiau cymunedol ac annogodd gynghorwyr i hysbysebu'r ffaith hon a helpu grwpiau lleol i wneud cais am y grantiau.

Swyddogion Cyngor Gwynedd- gellir cysylltu â nhw ar y mater hwn drwy Lindsay E.Edwards ac Anna Lewis.

O fis Ebrill 2024 ymlaen bydd yn rhaid i berchnogion eiddo sy'n buddsoddi mewn ail gartrefi, busnes Awyr B a B wneud cais am ganiatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd er mwyn cynnal busnes o'r fath.

Adroddiad blynyddol, adroddiad bioamrywiaeth a cynllun hyfforddiant aelodau.

Yn dilyn yr archwiliad mewnol, nodwyd gan yr archwilydd nad oedd gan y cyngor cymuned brotocolau uchod ar waith.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, trafodwyd a chytunwyd arnynt ar y camau rhagarweiniol canlynol;

Adroddiad blynyddol— Bydd y Clerc yn drafftio adroddiad rhagarweiniol i'w drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Adroddiad bioamrywiaeth—Bydd Cyng Dixon yn gwneud ymholiadau i ganfod beth sy'n ofynnol mewn adroddiad o'r fath ac a fyddai hynny'n berthnasol i gyngor cymuned Ganllwyd.

Cynllun hyfforddiant—Mae'r cynghorwyr wedi cytuno i fynychu dau gwrs yr un yn y flwyddyn ariannol yma.

Bydd y clerc yn cadw cofnod o cyrsiau a fynychwyd.

Materion ariannol.

Cyson Banc: Mai 2023

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £4556.68

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £10.00

Yn y Banc diwedd mis £4446.68

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit mewnol- Mae'r cyngor wedi derbyn canlyniad awdit mewnol gan Mr Bleddyn Rhys.

Mae'r clerc wedi dosbarthu copi o'r adroddiad i'r cynghorwyr.

Ar ôl trafod cynnwys yr adroddiad mae'r Cyngor wedi cytuno ar gwrs gweithredu (a gofnodir yn gynharach yn y cyfarfod).

Llythyrau & E-bost

Dim

Unrhyw fater arall.

Cynnal a chadw llwybrau troed—Yn dilyn trafodaeth bydd y cyngor (D.Morris) yn gofyn i gwmni Gofal Tir a Choed i gyflawni'r Gwaith.

Cyng Roberts yn hysbysu'r cyngor am gyflwr peryglus y ffordd ar gyffordd Hen Buarthdre a'r ffordd sy'n arwain i Gwmhesian. Roedd creigiau a malurion yn y lleoliad o ganlyniad i HGV yn gweithio fel rhan o'r torri coed yn yr ardal.

Bydd y clerc yn cysylltu a'r Cyngor Gwynedd.

Glanhau safle bus y pentref ac yn Ty'n y Groes- FBydd y cyngor yn gofyn i Mr Alun Evans i gwblhau'r gwaith.

A470 Ganllwyd --yn dilyn mwy o gwynion gan y cyhoedd am gyflwr y ffordd bydd y cyngor yn cysylltu'n bellach hefo adran priffyrdd i sefydlu pryd mae'n debygol y bydd gwaith yn y lleoliad yn cael ei wneud.

Cyflwr ffens 7, Derwen Deg, Ganllwyd-- Mae Cyng Griffiths a chynghorwyr eraill wedi derbyn gwybodaeth bod cyflwr y ffens ffin yn y lleoliad hwn yn berygl i ddefnyddwyr y ffordd. Bydd Cyng Griffiths yn siarad â Chyngor Gwynedd am y mater hwn.

Roedd diddordeb gan y cyngor ar rai o bolisiâu tai presennol Cyngor Gwynedd i ddysgu sut y gwneir penderfyniadau i ddyrannu eiddo i ddaliadau. Mae'r cynghorwyr yn pryderu y dylid dyrannu eiddo'r cyngor i deuluoedd ifanc ym mhrif eiddo'r cyngor yn y dyfodol.

Bydd y cyngor yn cysylltu a Mr Craig Ap Iago (Cabinet Cyngor Gwynedd) a Carys Vaughan Jones (Uwch swyddog tai Cyngor Gwynedd) am wybodaeth.